

Gwers 24 – Yr angylion a'r bugeiliaid

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Luc 2:8–20

Dywed Mathew wrthym yn syml fod Iesu wedi ei eni ym Methlehem, ond rhydd Luc y rheswm pam mai yno yr oedd Mair a Joseff adeg ei enedigaeth. Roedd Cesar Awgwstws wedi gorchymyn cofrestru'r holl Ymherodraeth ac 'Oherwydd ei fod yn perthyn i dŷ a thylwyth Dafydd, aeth Joseff i fyny o dref Nasareth yng Ngallilea i Jwdea, i dref Dafydd a elwir Bethlehem, i ymgofrestru ynghyd â Mair, ei ddyweddi.' (Luc 2:4,5). Mae Nasareth tua 80 milltir i'r Gogledd o Fethlehem, ac er ei bod yn daith hir ac anodd yn ei chyflwr hi, roedd Mair yn llawenhau oherwydd ei bod yn gwneud ewyllys Duw.

Y mae cofnod Luc yn tanlinellu tlodi'r digwyddiad a'r cymeriadau, a bod Iesu wedi ei eni i deulu cyffredin. Cyfeiriodd Mair at y ffaith fod Duw wedi dangos ei ras tuag at ei distadledde hi (Luc 1:48), ac wrth gyflwyno'r plentyn i'r Arglwydd, rhoddodd Joseff offrwm 'yn unol â'r hyn sydd wedi ei ddweud yng Nghyfraith yr Arglwydd: Pâr o durturod neu ddau gwy colomen' (Luc 2:24).

Y bobl gyntaf i wybod am enedigaeth Iesu oedd bugeiliaid ar lethrau brynau ar gyrion Bethlehem. Pam na chafodd y newydd hwn ei gyhoeddi i'r Offeiriaid neu'r Ysgrifenyddion? Oherwydd natur eu gwaith, esgymunwyd bugeiliaid o fywyd cymdeithasol y dydd. Byddai'r bugeiliaid yn gweithio ac yn byw gyda'r praid ddydd a nos ac felly'n seremonïol aflan, ac nid oedd croeso iddynt yn y synagog na'r Deml am wythnosau ar y tro. Wrth ymweld â'r bugeiliaid, roedd yr angel yn datguddio gras Duw tuag at y ddynoliaeth gyfan. Duw oedd y tu cefn i'r cyfan ac ef a ddewisodd pwy fyddai'n clywed y newyddion o lawenydd mawr yn gyntaf, ac yr oedd am ddangos fod y newydd am eni Gwaredwr y byd i'w gyhoeddi i bawb, hyd yr isaf mewn cymdeithas.

Y Llety a'r Ystabl

Nid yw Luc yn cyfeirio at y naill na'r llall. Gall y gair a gyfieithir yma olygu gwesty ond fynychaf golyga ystafell i westeion. Defnyddia Luc yr un gair i ddisgrifio'r oruwch ystafell (Luc 22:11). Mae'n bosibl mai'r hyn y mae Luc yn ei ddweud yw nad oedd ystafell sbâr yn y tŷ. Nid yw Luc yn dweud mai mewn ystabl y ganwyd Iesu. Yn arferol, cedwid anifeiliaid o fewn y tŷ, ond os nad oedd lle yno caent eu cadw mewn math o ogof yn y graig ger y tŷ. Bydd pererinion i Eglwys y Geni ym Methlehem yn cael eu harwain i lawr grisiau at seren arian ar y llawr i nodi man geni Iesu, gyda mur moel y graig yn gefndir. Y mae perygl i ni anghofio amgylchiadau y bu'n rhaid i Mair eu dioddef. Y mae Gwenallt yn ein rhybuddio yn ei gerdd 'Bethlehem':

'Nac anghofiwn yr ystabl gynt,


Tom yr anifeiliaid ar y gwellt;

Y muriau moel yn loyw gan oerni

A Mair yn crynu gan oerfel wrth fagu Ei baban.'

Bethlehem

Ystyr yr enw yw 'Tŷ Bara'. Mae tref Bethlehem tua 6 milltir i'r de o Jerwsalem. Yr enw gwreiddiol ar y dref oedd Efrath (Genesis 35:16, 19) ac fe'i cysylltir â rhai o enwau mawr yn hanes Israel. Ganwyd a magwyd Dafydd Frenin yno, a Bethlehem oedd tref enedigol Naomi a lleolir llyfr Ruth yno. Ym Methlehem, yn ôl traddodiad, y claddwyd Rachel a fu farw ar enedigaeth Benjamin (Genesis 35:19). Proffwydodd Micha mai ym Methlehem y byddai'r Meseia'n cael ei eni (Mic. 5:2–6).




Cafodd y bugeiliaid neges bwysig gan yr angylion. Wyt ti'n ei gofio? Beth am roi côt wlanog i bob un o'r defaid gan ddefnyddio gwlân cotwm neu ddefnydd gwlanog?

Diolch Dduw am Iesu. Helpa ni i gredu ynot ti fel gwnaeth y bugeiliaid.
Amen

Gwers 24 – Yr angylion a'r bugeiliaid

Neges i'r Bugeiliaid | Beibl Newydd y Plant tud. 126

(Luc 2)



Gwers 24

Yr angylion a'r bugeiliaid

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Yr angylion a'r bugeiliaid tud 104

BEIBL LLIW STORI DUW

Y bugeiliaid yn clywed y newyddion da tud 218

BEIBL BACH STORI DUW

Goleuni'r byd i gyd tud 184

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Y Nadolig cyntaf tud 84

BEIBL LLIW Y PLANT

Ymweliad y Bugeiliaid tud 192

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Neges i'r bugeiliaid tud 126

BEIBL BACH I BLANT

Y Babi Arbennig tud 296

Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORïAU

Brenin y Bugeiliaid (230) tud 125

BEIBL LLIW Y TEULU

Brenin y Bugeiliaid (230) tud 125

Amser Chwarae

Cuddiwch ddefaid o amgylch yr ystafell cyn i'r plant gyrraedd, gall y rhain fod yn deganau meddal, plastig neu luniau, digon fel bod un i bob plentyn. Cadwch un ohonynt yn eich llaw neu mewn bag, a gofynnwch i'r plant ddyfalu pa anifail yr ydych yn ei guddio. Rhowch gliwiau yn gyntaf, yna gadael iddynt deimlo'r tegan. Pan fyddant wedi dyfalu gadewch iddynt fynd o amgylch yr ystafell i edrych am y defaid. Gofynnwch a ydynt yn gwybod pwy sydd yn edrych ar ôl defaid? Cyflwynwch y gair 'bugail'. Dywedwch fod yr hanes gwir heddiw o'r Beibl yn sôn am fugeiliaid a gafodd newyddion da gan Dduw.

Amser Stori

Darllenwch yr hanes o dudalen 126, Beibl Newydd y Plant. Wedyn, adroddwch yr hanes yn eich geiriau eich hun a gofyn i'r plant gopïo eich symudiadau wrth i chi ddweud y stori. Er enghraifft, "Un noson dywyll, roedd bugeiliaid yn edrych ar ôl praid o ddefaid ar y mynydd (meimio edrych o gwmpas a chyfri defaid). Roedd hi'n oer iawn (rhwbiwch eich breichiau i gynhesu). Roedd rhai o'r bugeiliaid wedi mynd i gysgu (caewch eich llygaid gyda'ch dwylo gyda'i gilydd o dan eich boch). Roedd rhai o'r bugeiliaid yn sgwrsio wrth y tân (rhwbiwch eich dwylo â'i gilydd a meimio sgwrs)...". Pwysleiswch fod y bugeiliaid yn gwybod fod y baban newydd yn un arbennig oherwydd roedd Duw wedi anfon angylion i ddweud wrthynt.

Rhigwm (gyda symudiadau bysedd)

Dyma'r defaid, yn cysgu'n braf
(codi'r llaw chwith gyda'r bysedd wedi plygu mewn)

Dyma'r bugeiliaid yn eu gwyllo
(ysgwyd y ddau fys hiraf ar y llaw dde)

Dyma'r angylion disglair gyda neges gan Dduw
(ysgwyd bysedd i gyd yn gyflym)

Ganwyd baban arbennig heno
(ysgwyd y "babi" yn eich breichiau)

O Dduw, mae'r Nadolig yn amser llawn sbri
(clapio a neidio i fyny ac i lawr)

Diolch am roi Iesu i ni.
(ymestyn dwylo fel petai'n derbyn rhodd ac ysgwyd y "babi")

Gweddi

Beth am ddysgu'r gân 'Haleliw, haleliw, haleliw, haleliwia, Clod, clod i Dduw,' i'r plant. Esboniwch fod yr angylion a ddaeth â'r neges i'r bugeiliaid yn canmol Duw – a dyma beth mae'r gân hon yn ei wneud – canmol Duw.

Crefft

Llyfr Crefft t. 159

Adnoddau Ychwanegol

Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 5 oed t. 159

Gwerslyfrau Golau ar y Gair

Y Nadolig, Nadolig: Goleuni'r Byd
Nadolig: Rhodd Duw

Taflenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres A, B a C – Stori'r Nadolig

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 32: Y Nadolig Cyntaf

Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 322

Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 33: Mair a'r angel
Cyflwyniad 34: Y Babi Arbennig

Cyflwyniadau Powerpoint visionforchildren

Immanuel

Llyfrau Stori

Geni Iesu a'r Nadolig
Seren Ryfeddol
Fy Nadolig Cyntaf
Un Noson Serennog
Pwy fu ym Methlehem?
Croeso i'r Baban Iesu
Tair Taith y Nadolig
Y Bugail Blin
Blociau Stori'r Nadolig

